# Cyfarfod Y Pwyllgor Deddfau

## Cofnodion (LEG(2)-03-07):

### Dyddiad y Cyfarfod: 30 Ionawr 2007
### Amser y Cyfarfod: 9:30 am
### Lleoliad y Cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd

#### Aelodau’r Cynulliad yn Bresennol:

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| Jeff Cuthbert | Caerffili |
| Janice Gregory | Ogwr |
| Christine Gwyther | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| David Melding (Cadeirydd) | Canol De Cymru |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| Brynle Williams | Gogledd Cymru |

#### Swyddogion

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Gwyn Griffiths | Cynghorydd Cyfreithiol |

#### Gwasanaeth y Pwyllgorau

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |
| Hasera Khan | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Eitem 1: Ymddiheuriadau am absenoldeb: Rosemary Butler, Ann Jones, Joanest Jackson**

**Eitem 2: Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol – LEG(2)-02-2007**

2.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2007.

**Eitem 3: Adroddiad y Cadeirydd**

3.1 Gan nad oedd unrhyw eitemau i'w nodi fe aeth y Cadeirydd ymlaen yn uniongyrchol i drafod deddfwriaeth.

## Eitem 4: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried

4.1 Rheoliadau Cartrefi Plant (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2007

Dywedodd y Cynghorydd Cyfreithiol wrth y Pwyllgor ei fod yn angenrheidiol ychwanegu'r frawddeg "…would be easier to follow…" ar ddiwedd brawddeg olaf y paragraff o dan "Observations" yn y testun Saesneg. Dywedodd hefyd ei fod wedi trafod y mater gyda'r cyfreithiwr a ddrafftiodd y Rheoliadau, a hoffai fanteisio ar y cyfle i gywiro'r pwynt hwnnw yn y Memorandwm Cywiriadau. Felly, gofynnodd y Cynghorydd Cyfreithiol i'r Aelodau gytuno i symud y paragraff hwn i'r pwyntiau a restrir o dan "Reol Sefydlog 11.7". Cytunodd yr Aelodau i wneud hyn.

4.2 Nodwyd bod adroddiadau'r Pwyllgor Deddfau wedi cyfeirio at nifer sylweddol o f?wallau yn ddiweddar. Esboniodd y Cynghorydd Cyfreithiol fod hyn yn digwydd gan fod y cyfyngiadau amser ar y cyfreithwyr drafftio yn golygu bod rhai manylion yn cael eu hesgeuluso. Cytunodd yr Aelodau y dylid llunio'r adroddiad ar yn niwyg y drafft a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol.

4.3 Mewn perthynas ?146;r Offerynnau Statudol canlynol cytunodd yr Aelodau y dylid llunio'r adroddiadau yn niwyg y drafftiau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol:

LC1421 – Gorchymyn Deddf Tai 2004 (Cychwyn Rhif 4) (Cymru) 2007

LC1439 – Rheoliadau Deddf Priffyrdd 1980 (Gorchmynion Gatio) 2007

LC1440 – Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hyn Cymru (Penodi) 2007

LC1441 – Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hyn Cymru 2007

LC1442 – Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru (Diwygio) 2007

LC1444 – Rheoliadau Lleoli Plant (Cymru) 2007

LC1445 – Rheoliadau Adolygu Achosion Plant (Cymru) 2007

LC1447 – Rheoliadau'r Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau) (Cymru) (Diwygio) 2007

### Camau Gweithredu i'w Cymryd

Nid oedd unrhyw gamau i'w cymryd.

### Eitem 5: Unrhyw Fater Arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

5.1 Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 6 Chwefror 2007.